CIWB

**Tasg 4**

# Aaaaaaaa!

Edrychwch ar y geiriau yma:

| | |
|---|---|
| BLASUS AC IACH! | BLASUS A PHOETH! |
| BLASUS A MELYS! | BLASUS A GWAHANOL! |
| SUR OND BLASUS! | OER A MELYS! |

1. Beth ydy'r geiriau Cymraeg am **and**?

[ ]

2. Sut mae defnyddio'r geiriau yma?

[ ] o flaen cytsain (in front of a consonant)

[ ] o flaen llafariad (in front of a vowel)

3. Ysgrifennwch **a** neu **ac** yn y bylchau:

a. Dw i'n hoffi cawl cyw iâr [ ] llysiau.

b. Mae cawl borscht yn boeth [ ] yn flasus.

c. Mae rhai pobl yn hoffi cawl tomato [ ] bresych.

ch. Mae rhai pobl yn Affrica'n bwyta cawl coffi [ ] bananas.

d. Mae cig oen [ ] llysiau mewn cawl Cymreig.

4. Beth sy'n digwydd ar ôl a?

c > _____

t > _____

p > _____

5. Ysgrifennwch y gair mewn cromfachau yn gywir:

a. Mae rhai pobl yn bwyta cawl tomato a _____ (pupur).

b. Mae cig oen, moron, winwns a _____ (tatws) a _____ (cennin) mewn cawl Cymreig.

c. Mae rhai pobl yn Affrica'n bwyta cawl bananas a _____ (coffi).

ch. Mae betys a _____ (ciwcymbr) mewn Chlodnik.

d. Mae pobl yn Asia'n bwyta ramen, cawl cig oen a _____ (porc) gyda nwdls a _____ (pupur).

dd. Dw i'n hoffi cawl cig moch a _____ (tomato) ond dw i ddim yn hoffi cawl llysiau a _____ (pysgod).